Cyngor Bwrdeisdref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

Teitl:	Cynorthwy-ydd Cymorth Busnes - Lefel 3
Lleoliad:	Canolfan Adnoddau Teulu Glynebwy - Heol Beaufort, Glynebwy a Llys Einion - Stryd yr Eglwys, Abertyleri
Cyfarwyddiaeth:	Gwasanaethau Corfforaethol a Strategaeth
Cyfeirnod Swydd:	BG16184
Oriau:	37 awr yr wythnos
Cyflog:	Gradd 3 (£21,189 - £21,968 y flwyddyn)
Contract:	Gweithiwr Ystwyth

Crynodeb Swydd

Rydym yn edrych am rywun fydd yn darparu ymagwedd broffesiynol, ansawdd uchel at ddarparu gwasanaeth gan sicrhau y caiff safonau a gofynion y gwasanaeth eu diwallu.

Hysbyseb Lawn

Mae cyfle wedi cyflwyno ei hunan o fewn y Gwasanaeth Cymorth Busnes ar gyfer unigolyn brwdfrydig a hyderus fydd yn codi i'r heriau y mae'r gwasanaeth hwn yn eu cyflwyno

Bydd prif gyfrifoldebau'r swydd yn cynnwys:

- Trefnu a mynychu cyfarfodydd a phaneli i gymryd nodiadau/cofnodion manwl mewn gwahanol gyfarfodydd Gwasanaethau Plant, er enghraifft cyfarfodydd PLO (cyn Symud Ymlaen), Strategaeth Deilliant, Lleoliad a Pharu.
- Cynhyrchu agendâu.
- Archebu drwy'r system E Brynu.

- Dosbarthu arian pitw ac arian arall
- Diweddaru taenlenni a chronfeydd data drwy fwydo data, yn cynnwys WCCIS.
- Gweinyddiaeth gyffredinol, post, sganio, teipio, llungopïo ac yn y blaen.
- Cydymffurfio gyda'r Ddeddf Diogelu Data a chadw cyfrinachedd bob amser.
- Cydymffurfio ag egwyddorion y polisi corfforaethol ar gydraddoldeb a sicrhau ymrwymiad i ymarfer gwrthwahaniaethol.

Y cymwysterau ar gyfer y swydd yw 5 TGAU (neu gyfwerth) gradd C neu uwch (yn cynnwys Mathemateg a Saesneg). NVQ Lefel 2 ac ECDL neu gyfwerth.

Byddai profiad o weithio mewn amgylchedd cymorth busnes a delio gydag amrywiaeth eang o geisiadau a materion ynghyd â gwybodaeth gron o wasanaethau yn fanteisiol iawn yn y swydd hon.

Cymeradwywyd Lwfans Defnyddiwr Car Achlysurol ar gyfer y swydd felly mae angen mynediad i gerbyd ar gyfer dibenion gwaith.

Cynhelir sgrinio cyn-cyflogaeth trwyadl yn ystod y broses recriwtio.

Dyddiad Cau: 23/03/2023

Dyddiad Cyfweliadau: 05/04/2023